Mantell

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 39
Rhagfyr 2007

CYNNWYS

Newyddion 2
Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd 4
Cymunedau'n Gyntaf 5
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc 5
Digwyddiadau a Hyfforddiant 6
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 7
Grantiau 8

AR OSOD
Ystafell/Swyddfa yn 24-26 Stryd Fawr, Caernarfon.
Telerau i'w trafod.
Cysyllter â Ceren Williams, Mantell Gwynedd ar:
01286 672626 neu drwy ebostio ceren@mantell-gwynedd.com

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1 Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government
ESF UK YR UNDEB EWROPEAIDD Cronfa Gymdeithasol Ewrop AMCAN 1 EUROPEAN UNION European Social Fund OBJECTIVE 1
RHAN-ARIENNIR Y PROSIECT GAN YR UNDEB EWROPEAIDD
Cronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewropeaidd

Mantell yn dathlu 10 mlwydd

Gweler yr hanes tu mewn ym mhwt y Prif Swyddog!

Ffair Wirfoddoli 2007

Cynhaliwyd Ffair Wirfoddoli ym Mhorthmadog ar y 28ain o Fedi. Roedd yn ddiwrnod gwerth chweil gyda 40 o fudiadau yn bresennol ac yn gyfle arbennig i unigolion Gwynedd fynd o amgylch y standinau yn sgwrsio gyda'r mudiadau a derbyn gwybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli.

Roedd y diwrnod yn cyd-fynd a **'Bore Coffi Mwya yn y Byd - Cymorth Cancr Macmillan'** a llwyddwyd i godi swm o **£654** at yr achos teilwng yma.

Agorwyd y digwyddiad gan **Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC** ac yn ystod y diwrnod cafwyd sesiwn acwstig gan grwp poblogaidd lleol **Frizbee**. Hefyd daeth **Russell Grant** heibio i sgwrsio gyda'r mynychwyr a'r standinwyr. 'Roedd llu o wobrau da wedi cael eu cyfrannu ar gyfer y diwrnod gan fusnesau lleol.

Daeth oddeutu 150 o ddarpar wirfoddolwyr i'r Ffair a dyma oedd rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd -

Llun: Alan Dop - Ffotograffiaeth Nigel Hughes

"Diwrnod da iawn - nid yn unig i hel mwy o wirfoddolwyr ond i godi ymwybyddiaeth o'r mudiad hefyd."

"Diolch am y cyfle i gymryd rhan yn y gweithgaredd. Cyfle da i gael rhwydweithio hefo mudiadau eraill a chreu cysylltiadau newydd. Diolch am y lluniaeth - blasus iawn."

"Agoriad llygaid."

"Llawer iawn o wybodaeth defnyddiol."

"Llongyfarchiadau am ddod a cymaint ynghyd."

"Gwybodaeth eang ar gael - y stondinwyr i gyd yn siriol ac yn hapus i gynorthwyo."

Swyddfeydd Mantell Gwynedd
Swyddfa Gofrestredig: 24-26 Stryd Fawr • CAERNARFON • LL55 1RH. ☎ 01286 672626 • 🖷: 01286 678430
Swyddfa Gofrestredig: Yr Hen Orsaf Heddlu • Y Lawnt • DOLGELLAU • LL40 1SB. ☎ 01341 422575 • 🖷: 01341 422147
E-bost: ymholiadau@mantellgwynedd.com • Gwefan: www.mantellgwynedd.com

Elusen Gofrestredig: 1068851 • Cwmni Trwy Warant: 3420271 • Cofrestrwyd yng Nghymru
Cyhoeddir MANTELL gan Mantell Gwynedd. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn Mantell o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Mantell Gwynedd. Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi.

Staff Mantell Gwynedd

CAERNARFON

Prif Swyddog: Bethan Russell Owen

TÎM GWASANAETHAU

Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol: Meinir Jones
Swyddog Cymunedau'n Gyntaf: Carys Williams
Hwylusydd Iechyd a Gofal Cym.: Sioned Llwyd Larsen
Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc: Ann Vaughan Jones
Swyddog Grantiau a Chefnogaeth: Delyth Vaughan

TÎM CYLLID A GWEINYDDOL

Rheolydd Cyllid a Gweithrediadau: Ceren Williams
Swyddog Gweinyddol: Bronwen Rowlands
Swyddog Gweinyddol: Mari Emlyn
Cynorthwy-ydd Gweinyddol: Tracy Lynne Roberts

TÎM CANOLFAN GWIRFODDOLI

Cydlynydd Gwirfoddolwyr: Rhianon Jones
Swyddog Gwirfoddoli: Iola Till
Swyddog Gwirfoddoli Ieuenctid: Mirain Roberts

DOLGELLAU

TÎM GWASANAETHAU

Swyddog Cymunedau'n Gyntaf: Mair Huws

TÎM CYLLID A GWEINYDDOL

Cynorthwy-ydd Gweinyddol: Beryl Norgrove

TÎM CANOLFAN GWIRFODDOLI

Swyddog Gwirfoddoli: Ann Angharad Fleming

Nodyn gan y Prif Swyddog...

Dyma nesau at ddiwedd blwyddyn arall a does gen i ddim amheuaeth o gwbl y bydd y flwyddyn o'n blaenau yr un mor heriol â'r hon a fu.

Wrth edrych yn ôl dros y flwyddyn gwelwyd nifer o ddatblygiadau gwleidyddol fydd yn allweddol bwysig i ddyfodol y Trydydd Sector yng Nghymru. Mae'r agenda genedlaethol ar ddinasyddiaeth a datblygiad y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn cynnig cyfleoedd mawr i'r Trydydd Sector yng Nghymru ond bydd angen brwydro i sicrhau buddsoddiad teilwng i'n galluogi i fedru manteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgîl y datblygiadau hyn.

Yn gyffredinol mae proffeil y Trydydd Sector yng Nghymru wedi dod yn gynyddol amlycach. Mae Uned Trydydd Sector o fewn y Cynulliad wedi tyfu'n sylweddol ac mae'r Sector yn cael lle amlycach o lawer yn nhrafodaethau gwleidyddol y Cynulliad.

Erbyn hyn mae'r Strategaeth Trydydd Sector wedi ymddangos o'r Cynulliad ar ffurf drafft ac mae llawer o'r cynnwys i'w groesawu. Mae'r Strategaeth hon yn ganlyniad y Cynllun Sector Gwirfoddol ddaeth o'r Cynulliad yn gynharach eleni. Mae pwyslais yn y strategaeth ar werth gwirfoddoli, grymuso dinasyddion, hwyluso llais y dinesydd, annog Mentrau Cymdeithasol a rhoi stamp mwy personol ar wasanaethau cyhoeddus.

Yn wleidyddol mae'n ymddangos fod ennill tir sylweddol wedi bod i'r sector dros y flwyddyn.

Ar lefel leol roeddem yn dathlu deg mlynedd o fodolaeth Mantell Gwynedd eleni. Mae'n anhygoel meddwl fod deg mlynedd wedi mynd heibio ers gweld y strwythur genedlaethol welodd ddatblygu 22 o Gynghorau Sirol Gwirfoddol ar draws Cymru gyfan. Cafwyd Cyfarfod Blynyddol llwyddiannus yn Nghanolfan Talysarn a phleser clywed Alun Ffred yn cydnabod gwerth aruthrol y sector gwirfoddol yn y Sir dros y blynyddoedd.

Braf hefyd ar ddiwedd blwyddyn medru dweud fod y frwydr o sicrhau arian i gefnogi swydd Hwylusydd Plant o fewn Mantell wedi llwyddo. Dyma adnodd allweddol bwysig i sicrhau llais y Trydydd Sector yn y maes Plant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd. Bydd y Fforwm Plant yn parhau yn fforwm bwysig i leisio barn a bydd ein Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc yn gallu bellach hwyluso'r broses yn ffurfiol ac effeithiol. Dymunwn yn dda i Ann Vaughan Jones yn y swydd.

Felly ar ddiwedd blwyddyn dymunaf yn dda i chwi oll a chymeraf y cyfle i ddiolch i holl staff Mantell am eu hymroddiad dros y flwyddyn ac hefyd i aelodau'r Bwrdd am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad i waith y Sector yng Ngwynedd.

Gyda Dymuniadau Gorau i chi oll dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Tan Tro Nesa,

Bethan

Prosiect Y Dref Werdd Blaenau Ffestiniog

Mae yna brosiect cyffrous newydd ar y gweill ym Mlaenau Ffestiniog. Prif amcan prosiect 'Y Dref Werdd' yw creu fframwaith a fydd yn galluogi cymuned Bro Ffestiniog defnyddio'r amgylchfyd lleol a'r amgylchedd yn fwy cyffredinol fel adnodd i ddatblygu'r economi leol, datblygu'r gymuned a'i diwylliant, ymgodymu a phroblemau cymdeithasol, gwella iechyd a lles y boblogaeth, a, thrwy addysg, creu poblogaeth o fudd-deiliadwyr amgylcheddol bywiog ac ysgogedig. Trwy hyn byddwn hefyd yn gwarchod etifeddiaeth amgylcheddol yr ardal a chyfrannu tuag at gynaladwyedd byd-eang. Caiff y broses o weithio tuag at fod yn Dref Werdd ei arwain gan y gymuned, bydd gweithiwr/wyr y prosiect yn hwyluso'r broses yma. Mae'r prosiect eisoes wedi derbyn arian gan CAE, ar gyfer gwaith cynllunio cymunedol ac ar gyfer cychwyn gweithredu yn y maes. Mae'r broses yma eisoes ar y gweill.

Mae yna lot o syniadau da wedi eu codi yn barod. Dyma rhai ohonyn nhw: Cwmni Cymunedol Ynni, Prosiect Adnewyddu Adeiladau Cymunedol i wella eu effeithlonrwydd ynni, Datblygu Canolfan Trin Gwastraff yn y dref, Creu a gweithredu Strategaeth Addysg Amgylcheddol gyflawn ar gyfer y dref, Gweithio tuag at fod yn Dref Masnach Deg, Prosiect Bwyd Lleol Cynhwysfawr (yn cynnwys hybu a datblygu cynnyrch a siopau lleol, prosiectau alotiadau, marchnad ffermwyr), Cynllun Twristiaeth Eco i gefnogi busnesau sydd eisoes yn bodoli a datblygu rhai newydd, Rhaglen hyfforddiant mewn sgiliau Eco a Chadwraeth, Prosiectau cadwraeth gyda chyfleoedd wirfoddoli, Prosiectau Mynediad (ar y cyd ag Antur Stiniog). Mae'n siwr y daw llawer mwy o syniadau a chyfleoedd yn ystod y broses o gynllunio cymunedol. Nod y Dref Werdd yw gweithio gyda mudiadau, sefydliadau a phrosiectau sydd yn bodoli eisoes. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Sara Ashton ar 01766 832214 neu saraashton@gwynedd.gov.uk

I lawrlwytho copi o newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ewch i'r adran Newyddion ar wefan Mantell Gwynedd - **www.mantellgwynedd.com**

Chwilio am le newydd ar gyfer cynnal eich cyfarfodydd?

Gall **Cae'r Gors: Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts** yn Rhosgadfan fod o gymorth. Mae'r caban, sef ystafell foethus y tu cefn i'r bwthyn traddodiadol, gyda byrddau addas a chadeiriau cyfforddus, yn gallu eistedd hyd at 32 o unigolion. Gellir llogi'r caban ar gyfer cyfarfodydd, gweithdai, darlithoedd a chyrsiau o bob math, gan wneud defnydd o'r cyfleusterau isod:

- Chwaraewr DVD;
- Offer ar gyfer cyflwyniadau Microsoft Power Point;
- Siartiau troi;
- Maes parcio;
- Mynedfa'n addas ar gyfer yr anabl;
- Toiledau gydag uned newid clwt;
- Cegin;
- Lluniaeth ysgafn (trwy drefniant ymlaen llaw)

Beth am gyfuno llogi'r caban gydag ymweliad o'r bwthyn a'r arddangosfa aml-gyfrwng yn y beudy? Prisiau arbennig ar gael. Cynigir gostyngiad yn ogystal i elusennau a grwpiau cymunedol. Cysylltwch â Chae'r Gors am fanylion ar **01286 831 715**, neu anfonwch e-bost at **post@caergors.org.**

PROSIECTAU CYMUNEDOL
Dalier Sylw!

A ydych yn rhedeg grwp amgylcheddol neu gymunedol yng Nghymru?

Hoffech gael grwp o wirfoddolwyr brwdfrydig i helpu i gwblhau prosiect arbennig?

Mae **UNA Exchange** yn elusen rhyngwladol wedi ei leoli yng Nghaerdydd. Maent yn chwilio am fwy o brosiectau cymunedol drwy Gymru a fyddai gyda diddordeb mewn derbyn grwp o 5 - 12 o wirfoddolwyr rhyngwladol. Byddai'r prosiect fel arfer yn para am 2 - 3 wythnos gyda llety a bwyd wedi ei ddarparu. Mae'r gwirfoddolwyr yn talu am eu costau trafeilio eu hunain ac mae **UNA Exchange** yn cymryd gofal o recriwtio a hyfforddi.

A oes gennych ddiddordeb?
Cysylltwch â Katy Chadwick - **katy-chadwick@unaexchange.org**
Rhif ffôn: **02920 223088.**

PROSIECTAU CYMUNEDOL GWYRDD GORAU YN DERBYN GWOBR GAN Y GWEINIDOG

A ydych wedi creu neu wedi gwella man gwyrdd yn eich cymuned? Ydych yn chwilio am gydnabyddiaeth a nôd ansawdd am eich gwaith? Efallai Gwobr y Faner Fach Werdd yw'r union beth rydych yn chwilio amdano.

Yr Ymddiriedolaeth Ddinesig sy'n rhedeg Gwobr y Faner Fach Werdd sy', erbyn hyn, yn nôd ansawdd cydnabyddedig ar gyfer dangos cyrhaeddiad mewn creu safleoedd cymunedol cyffelyb. Mae'n hawdd cymryd rhan ac mae ganddo drefn feirniadu ddidwyll. Mae'n arf ddefnyddiol iawn wrth ymgeisio am grantiau.

Mae cyfanswm o 77 mannau gwyrdd wedi cael eu gwobrwyo gyda Baner Fach Werdd yn y DU, gydag 17 yng Nghymru, sy'n gynnydd o 42% ar llynedd.

Dywed Mel ab Owain, rheolwr rhaglen cynllun y Faner Fach Werdd:

"Unwaith eto rydym wrth ein bodd gyda'r tyfiant enfawr yn nifer yr enillwyr, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd mannau gwyrdd o ansawdd yn ein cymunedau. Llongyfarchiadau i'r nifer fawr o unigolion brwd sy wedi gweithio'n galed i ddarparu'r mannau gwyrdd hanfodol hyn sy'n cynorthwyo i wella ansawdd bywyd pawb."

Os yw rhywun yn creu man gwyrdd cymunedol ac eisiau gwybodaeth am y wobr cysylltwch, heb oedi, â Mel ab Owain ar melabowain@btnternet.com neu edrychwch ar www.greenflagawards.org.uk

Llun: *Lynn ac Alan Patterson o Bwyllgor Pentref Carmel yn derbyn Gwobr y Faner Fach Werdd oddiwrth Jane Davidson AC, Gweinidog dros yr Amgylchedd yn Sioe Frenhinol Cymru.*

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw **30ain Ionawr, 2008**. Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at Beryl Norgrove yn swyddfa Dolgellau:
beryl@mantellgwynedd.com ● Ffôn: 01341 422575

Pobl Ifanc yn Gwirfoddoli

Cwrs Cymorth Cyntaf Brys i Bobl Ifanc

Trefnwyd Cwrs Cymorth Cyntaf Brys yn arbennig ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc rhwng 16 a 24 oed yng Nghaernarfon ar y 1af o Dachwedd. Daeth 8 o ferched ifanc i'r diwrnod a pob un yn llwyddiannus yn ennill eu tystysgrifau cymorth cyntaf felly da iawn nhw!

Pobl Ifanc Cymru yn lleisio eu barn ar wirfoddoli

Fe gyd-drefnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Canllaw Ar-lein a CWVYS ddigwyddiad Comisiwn Russell ar ddydd Gwener 19 Hydref yn Y Pafiliwn, Llandrindod, Powys. Pwrpas y digwyddiad oedd i lunio grŵp tasg o bobl ifanc i ddatblygu gwirfoddoli ymysg ieuenctid yng Nghymru.

Roedd tua 70 o bobl ifanc yn bresennol a chafwyd trafodaeth fywiog am holl wahanol elfennau gwirfoddoli a chyfle iddynt ddweud eu dweud am y ffordd y ymlaen gydag argymhellion Comisiwn Russell yng Nghymru.

Gwirfoddolwraig ifanc o Wynedd oedd yn awyddus i fod yn bresennol yn y digwyddiad oedd Ffion Jones.

"Roedd o yn gyfle da i gael dod i nabod pobl ifanc ar draws Gymru, a chael rhoi fy marn o'm mhrofiad i fel gwirfoddolwraig."

Y cam nesaf fydd recriwtio 20 gwirfoddolwr i ymuno â grŵp adborth, neu banel, am flwyddyn, a gweithredu fel grŵp ymgynghori i helpu'r Cydlynydd sef Judith Bevan, i roi'r Cynllun Gweithredu ar waith a dilyn argymhellion Comisiwn Russell.

Mae pobl ifanc a'u barn yn ganolog i ganfyddiadau ac argymhellion Comisiwn Russell. Pwysleisir pwysigrwydd parhau i gynnwys pobl ifanc wrth ddatblygu a darparu'r fframwaith newydd yn aml yn adroddiad Comisiwn Russell, a dyna pam roedd y digwyddiad hwn i bobl ifanc mor bwysig.

Pwrpas y Comisiwn Russell

"...datblygu fframwaith i gael pobl ifanc i weithredu a chymryd rhan ac i... gyflawni newid sylweddol mewn amrywiaeth, ansawdd a maint gwirfoddoli gan bobl ifanc rhwng 16-25 ym Mhrydain"

LLONGYFARCHIADAU!

Dau berson ifanc o Wynedd sydd wedi derbyn eu Gwobr Rhagoriaeth Gwirfoddolwr y Mileniwm am 200awr o wirfoddoli yw Shon Prebble o Groeslon a Catrin Huw Jones o Penygroes.

Rhwydwaith Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf

Cynhaliwyd cyfarfod diweddara'r rhwydwaith ym Mlaenau Ffestiniog nos Lun 29ain Hydref 2007. Penderfynwyd cynnal y noson yn Y Gell, sef cartref newydd i'r Gwallgofiaid ym Mlaenau Ffestiniog. Thema'r noson oedd gwaith ieuenctid yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf.

Yn gyntaf cafwyd cyflwyniad gan Rhys Roberts ar y datblygiadau sydd yn digwydd gyda Gwallgofiaid yn eu cartref newydd a chafodd y rhai a fynychodd y cyfle i edrych o gwmpas yr adeilad i gael blas ar beth sydd yn mynd ymlaen.

Yn dilyn hyn cafwyd cyflwyniad byr gan y rhai oedd yn bresennol ar beth oedd yn digwydd yn eu hardaloedd hwy.

Diolch i bawb a fynychodd ac am eu cyfraniad ar y noson.

Rhaghysbysiad!

Fel dilyniant i'r noson ym Mlaenau Ffestiniog penderfynwyd y byddem yn trefnu'r cyfarfod nesaf yn adeilad Cynllun Ieuenctid Pwllheli ym mis Mawrth 2008. Mae'r prosiect yma wedi bod yn cael ei ddatblygu dros y ddwy flynedd diwethaf ac o'r diwedd yr ydym yn gweld diwedd y daith drwy agor y drysau yn Ffordd Caerdydd yn fuan yn 2008.

Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc i'r Trydydd Sector

Mae Cyngor Gwynedd yn arwain ar waith Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yng Ngwynedd. Ynghyd a chynrychiolwyr o'r sectorau statudol, preifat a gwirfoddol, maent yn ymrwymo i gydweithio i gynhyrchu cynllun fframwaith strategol newydd fydd yn ymateb i wella gwasanaethau, cyfleon a lles plant a phobl ifanc y sir sydd rhwng 0 a 25 oed.

Fel rhan o'r Brif Bartneriaeth ceir is-grwpiau a nifer o grwpiau tasg Cynllunio a Datblygu. Mae gan y trydydd sector eisoes nifer o seddi ar y grwpiau hyn h.y. cynrychiolwyr o fudiadau'r sir, Fforwm Plant a Theuluoedd Gwynedd a Mantell Gwynedd.

Mae Ann Vaughan Jones wedi cael ei phenodi yn ddiweddar gan Mantell Gwynedd drwy arian CYMORTH fel Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc. Ei rôl hi fydd cefnogi a hwyluso cyswllt rhwng y trydydd sector â'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Yn ogystal â hyn, bydd yn cynnal a hybu cydweithio rhwng sefydliadau'r sector er mwyn adrodd yn ôl ar faterion fydd yn codi ynghyd a threfnu a darparu gwybodaeth a hyfforddiant. Bydd yn cydweithio'n agos gyda Fforwm Plant a Theuluoedd Gwynedd i dynnu mudiadau at ei gilydd.

"Mae hon am fod yn her newydd i mi - yn gyfle gwych i gydlynnu gwaith y sector ym maes plant a phobl ifanc. Dwi yn edrych ymlaen yn fawr i gydweithio â nifer o fudiadau a sefydliadau'r sir ac yn barod iawn i ddangos gwerth cynnwys y sector yn nhrafodaethau strategol y sir".

Bydd Ann wedi ei lleoli yn ein swyddfa yng Nghaernarfon. Am fwy o fanylion ynglyn â gwaith yr Hwylusydd neu i gofrestru eich hun fel mudiad gwirfoddol neu gymunedol sy'n gweithredu ym maes plant a phobl ifanc, cysylltwch ag: Ann Vaughan Jones yn y swyddfa yng Nghaernarfon ar 01286 672626 neu ar e-bost annvaughan@mantellgwynedd.com

Arolwg Estyn o Wasanaethau Cymorth Ieuenctid

Bydd Estyn yn ymweld â Gwynedd yn ystod pythefnos cyntaf Mawrth 2008 er mwyn arolygu darpariaeth Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid y sir. Mae gan Estyn gyfrifoldeb cyfreithiol i arolygu mudiadau sy'n gweithio gyda pobl ifanc, gan gynnwys mudiadau statudol, cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Bydd y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn chwarae rhan flaenllaw yn yr arolwg ac mae'n gyfrifol am gydlynu trefniadau. Erbyn hyn, mae'r Bartneriaeth wedi nodi pa fudiadau ddylai gyfrannu at yr arolwg a gofynnwyd iddynt gwblhau templed hunanasesu. Mae'r templed yn rhoi cyfle i'r mudiadau asesu eu gwendidau a'r cryfderau yn ogystal ag amlygu unrhyw enghreifftiau o ymarfer da. Bydd y templedi unigol rhain wedyn yn bwydo i mewn i adroddiad sirol Gwynedd a'r adroddiad hwn fydd sylfaen arolwg Estyn.

Er y gall arolwg Estyn achosi pryder i rai mae'n rhoi cyfle i ni adolygu'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc yn lleol. Bydd yr adroddiad terfynol yn amlygu'r meysydd cryf yn ein darpariaeth a'r meysydd rheiny sydd angen cael eu cryfhau. Felly, dylai'r arolwg Estyn gael ei ystyried fel cyfle i amlygu'r amrywiaeth o waith da sy'n cael ei wneud gyda pobl ifanc Gwynedd.

Hyfforddiant Mantell i ddod:

IONAWR 2008

Cyfrifoldebau Ymddiriedolwyr
Ionawr 29ain

6.30y.h. - 9.00y.h.
Plas Tan y Bwlch, Maentwrog

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Dyma gwrs fydd yn edrych ar gyfrifoldebau ac oblygiadau bod yn ymddiriedolwr yn ogystal ag edrych ar 'Beth sy'n gwneud ymddiriedolwr da?'

CHWEFROR 2008

Creu Gwefan - Manteisio ar eich Gwefan a'r Wê
Chwefror 1af

10.00y.b. - 3.00y.p.
Ystafell Gyfarfod, Mantell Gwynedd, Caernarfon

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Ar ddiwedd y sesiwn hwn bydd y cyfranogwyr yn deall sut mae'r We yn effeithiol a sut nad yw'n effeithiol.

Chwilio am Gyllid?
Chwefror 12fed

7.00y.h. - 9.00y.h.
Canolfan Deilen Las, Craflwyn, Beddgelert

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Bwriad y sesiwn hwn yw eich helpu i ystyried y ffyrdd gwahanol o amrywio eich sylfaen incwm er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol.

Marchnata Mudiad yn Effeithiol
Chwefror 22ain

10.00y.b. - 4.00y.p.
Ystafell Madog, Canolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Bydd yr hyfforddiant yma yn edrych ar greu deunyddiau marchnata a chael eich neges drosodd yn effeithiol. Bydd hefyd yn edrych ar beth sy'n gwneud cylchlythyr effeithiol yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol.

Cyflwyniad i Baratoi Strategaeth Codi Arian Cynaladwy
Chwefror 29ain

10.00y.b. - 4.00y.p.

Ystafell Madog, Canolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddeall pwysigrwydd a buddiannau mabwysiadu agwedd strwythuredig tuag at godi arian er mwyn datblygu sylfaen incwm cynaladwy.

MAWRTH 2008

Adeiladau Cymunedol Cynaladwy
Mawrth 5ed

7.00y.h. - 9.30y.h.
Neuadd Goffa Penrhyndeudraeth

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Sesiwn wybodaeth yw hon ar gyfer aelodau o grwpiau cymunedol sydd yng ngofal neuaddau ac adeiladau cymunedol.

Grantiau - Paratoi Ceisiadau a Dogfennau Cefnogol
Mawrth 14eg

10.00y.b. - 4.00y.p.
Gwesty'r Queens, Blaenau Ffestiniog

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Bydd y cwrs hwn yn edrych ar bob agwedd ar baratoi cais am gyllid a bydd yn dangos, mewn ffordd ymarferol, y ffynonellau mwyaf priodol o gyllid ar gyfer eich mudiad chi.

EBRILL 2008

Cyflwyniad i Gynllunio Busnes a Strategol
Ebrill 1af

10.00y.b. - 4.00y.p.
Royal Victoria, Llanberis

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Bydd y cwrs yn eich helpu i ddeall pwysigrwydd a buddiannau cynllunio tymor hir a rhoi adnoddau ymarferol i chi gynllunio'n fwy effeithiol o fewn eich mudiad.

Paratoi ar gyfer Gwirfoddolwyr (2 ddiwrnod)
29ain a 30ain Ebrill

10.00y.b. - 4.00y.p.
Royal Sportsman, Porthmadog

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

MEHEFIN 2008

Cyllid benthyciadau a datblygu sy'n seiliedig ar asedau
Mehefin 3ydd

10.00y.b. - 4.00y.p.
Ty Siamas, Dolgellau

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Anelir y cwrs at bobl sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol a chodi arian ac mae'n addas ar gyfer y gall cyllid benthyciadau a datblygiad sy'n seiliedig ar asedau helpu mudiad i ddod yn ariannol gynaladwy.

Os hoffech drafod anghenion eich mudiad o ran hyfforddiant neu i gael rhagor o wybodaeth am yr hyfforddiant mae Mantell Gwynedd yn ei gynnig cysylltwch â: Mantell Gwynedd, Yr Hen Orsaf Heddlu, Y Lawnt, Dolgellau, Gwynedd LL40 1SB. Ffôn: 01341 422575 neu dolgellau@mantellgwynedd.com

Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Medi 2007

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf o'r Rhwydwaith ar Fedi 18 ym Mhorthmadog. Mynychodd tua 25 o gynrychiolwyr o wahanol fudiadau a chafwyd cyflwyniad gan Clare Jones, Bwrdd Iechyd Gwynedd ar y cynllun - Cynllunio gwasanaethau yn y gymuned. Nododd y bydd amlinelliad byr o'r cynllun yn cael ei gynnwys yn y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol 2008-2011 - bydd ymgynghori ar y ddogfen hon yn cymryd lle o ddechrau Hydref hyd Ionawr y 7fed 2008.

Rhoddodd Sioned Larsen, Mantell Gwynedd drosolwg o'r grwpiau a phartneriaethau y mae hi'n ymwneud â hwy yn rhinwedd ei swydd. Anogwyd mudiadau i gysylltu os oedd ganddynt unrhyw faterion yr hoffent iddi eu codi a'u dilyn ymhellach.

Neilltuwyd gweddill y cyfarfod i drafod sut mae'r Sector wirfoddol yn ychwanegu gwerth gan gyfeirio at enghreifftiau o ymarfer da. Mae'r adborth wedi ei gyflwyno i'r cyrff perthnasol gan gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd wrthi'n datblygu dogfen 'Cynlluniwyd i Ychwanegu Gwerth' sef arweiniad strategol i'r sector wirfoddol a chymunedol wrth gefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cynllun Grantiau Bach Iechyd Meddwl CGGC

Gwahoddir ceisiadau dan y cynllun grantiau bach newydd hwn gan fudiadau cymwys gydag uchafswm y grant yn **£3,000**. Pwrpas y cynllun yw cefnogi a gwella cyfraniad y sector gwirfoddol i'r gofal a gaiff pobl sy'n wynebu problemau iechyd meddwl a'u teuluoedd a'r sawl sy'n gofalu amdanynt, yng Nghymru.

Mae'r cynllun yma wedi ei anelu at fudiadau gwirfoddol cyfansoddiadol nad ydynt ar hyn o bryd yn cael nawdd drwy gyfrwng y cynllun Grantiau Iechyd Meddwl Lleol.

Am fyw o wybodaeth cysylltwch â **Nigel Evans** ar **01745357577** neu **nevans@wcva.org.uk** neu gwefan CGGC **www.wcva.org.uk**

Dyddiad Cau - Ionawr, 18 2008

Rhaghysbysiad - Cyfarfodydd Ymgynghori Cymunedau'n Gyntaf, Gwynedd

Ydych chi eisiau i'ch llais gael ei glywed? - Cyfarfodydd ymgynghori newidiadau yn rhaglen Cymunedau'n Gyntaf:

Y ddau ddyddiad i gadw mewn sylw yw:

6ed Chwefror 2008 yn Y Ganolfan, Porthmadog am 7yh

13eg Chwefror yn Galeri,Caernarfon am 7yh

Ymgynghoriad

Strategaeth Ddrafft Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles - 2008-2011

Mae'r Strategaeth ddrafft wedi ei chyhoeddi a bydd cyfnod ymgynghorol yn dod i ben **7fed o Ionawr 2008** - am gopi o'r ddogfen ewch ar Wefan Mantell Gwynedd www/mantellgwynedd.com, Gwefan Cyngor Gwynedd neu cysylltwch â Sioned Larsen ym Mantell Gwynedd. Mae'n bwysig bod y trydydd sector yn ymateb i'r strategaeth hon gan mai dyma'r strategaeth fydd yn rhoi arweiniad i gomisiynu gwasanaethau ym maes iechyd a gofal yn y dyfodol.

RNIB CYMRU (ATIC)

Technoleg Hygyrch Mewn Cymunedau

Yn rhan o brosiect ATIC r'yn ni'n lansio Llinell Gymorth hygyrch ATIC. Ein nod yw darparu gwasanaeth cymorth ar hyd a lled y gymuned er mwyn creu cyswllt rhwng Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a phobl ddall ac â golwg rhannol ledled Cymru.

Gallwch gysylltu â'r llinell wybodaeth ar **0845 602 0893** sydd ar gael o **11am tan 4pm Llun i Gwener** neu drwy e-bost **atic@rnib.org.uk**

Ariannwyd gan Cymunedau@Ei Gilydd

I dderbyn mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r eitemau a ymddangosir uchod, cysylltwch â: Sioned Larsen ar 01286 672626 neu sioned@mantellgwynedd.com

Grant Sport Relief

Bydd Sport Relief yn ariannu mudiadau sy'n gwneud defnydd o chwaraeon ac ymarfer corff i gryfhau cymunedau gan ddarparu cyfleoedd i bobl sydd dan anfantais ac wedi cael eu heithrio. Gall hyn fod oherwydd incwm isel, oedran, anableddau, tras, rhywioldeb neu genedl.

Mae Sport Relief yn awyddus i roi cefnogaeth i grwpiau cymunedol sydd yn defnyddio chwaraeon i:

- Helpu pobl sy'n cael anhawsterau ac sy'n ceisio adennill eu hyder a'u hunan-barch.
- Cynyddu'r mynediad i chwaraeon ac ymarfer corff i bobl sy'n wynebu eu dieithrio yn gymdeithasol ac unigedd.

Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i fudiadau bychan lleol, neu fudiadau sydd yn yr ardaloedd o dan anfantais, sydd yn defnyddio chwaraeon ac ymarfer corff fel modd o danlinellu'r anghenion hynny.

Gellir gwneud cais am grant rhwng **£1,000 a £10,000**.

Dyddiadau cau ar gyfer 2007/08

- Dydd Gwener 14 Rhagfyr, 2007
- Dydd Iau 20 Mawrth, 2008
- Dydd Gwener 20 Mehefin, 2008
- Dydd Gwener 19 Medi, 2008

Am fwy o fanylion neu am becyn cais cysylltwch â'r Swyddog Grantiau: The Community Foundation in Wales 14-16 Merthyr Road, Whitchurch,Caerdydd CF14 1DG

t: 029 20 520250
e: susan@cfiw.org.uk
w: www.cfiw.org.uk

Y Gronfa Llawr Gwlad

Cronfa beilot newydd dan nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru ac a weinyddir gan Mantell Gwynedd i feithrin gallu mewn grwpiau gwirfoddol a chymunedol bach a ffurfiwyd gan gymunedau o ddiddordeb. Efallai nad yw'n hawdd i'r grwpiau hyn gael arian o ffrydiau ariannu eraill ac felly maent yn ddifreintiedig.

Nodi'r 'grwpiau difreintiedig' i gynnwys y canlynol: grwpiau lleiafrifoedd ethnig, grwpiau pobl anabl, grwpiau lesbiaid, hoyw a deurywiol, grwpiau menywod, grwpiau digartref, grwpiau ffoaduriaid a cheiswyr lloches, grwpiau sipsiwn a theithwyr, grwpiau sy'n helpu pobl â lefelau isel o lythrennedd neu rifedd, grwpiau sydd wedi'u hynysu a chymunedau ieithyddol.

Gellir ymgeisio am grant rhwng £100 i uchafswm o £2,000 i helpu i sefydlu grwpiau ac i drefnu ystod eang o weithgareddau. Gall gweithgareddau o'r fath gynnwys

- Datblygu cylchlythyr neu wefan
- Prynu offer cyfrifiadurol
- Trefnu cyfarfodydd neu dalu am logi stafell
- Trefnu digwyddiadau hyfforddi
- Talu am gostau siaradwyr

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **31ain, Rhagfyr 2007.** Am becyn cais neu am fwy o wybodaeth cysylltwch â Delyth Vaughan yn Mantell Gwynedd ar 01286 672 626 neu delyth@mantellgwynedd.com. Byddwn yn rhoi gwybod i geisiadau llwyddiannus erbyn 29ain Chwefror 2008.

Cynllun Grantiau Bach Oxfam Cymru - 2007

Mae cynllun grantiau bach Oxfam Cymru yn gronfa i gefnogi mentrau ymgyrchu arloesol sy'n cyfrannu at gyflawni nod a hyrwyddo dibenion penodol Oxfam sef lleddfu tlodi, trallod a dioddefaint.

Gall hyn gael ei wneud drwy:

- Ysgogi pobl a chymunedau yng Nghymru i ymgyrchu yn erbyn tlodi byd-eang gyda ffocws ar gynyddu effaith un o ymgyrchoedd presennol Oxfam;
- Cynnal ymchwil neu lywio'r farn gyhoeddus yng Nghymru, gan ddyfnhau dealltwriaeth y cyhoedd o natur, achos ac effeithiau tlodi a'r camau unigol gallan nhw eu cymryd;
- Meddu ar amcanion eglur sy'n gallu cael eu mesur, eu cyflawni a'u hamserlennu, a chael eu cwblhau o fewn yr amserlen benodedig.

Gallwch wneud cais am hyd at uchafswm o £4,000.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: **5pm, 25 Ionawr, 2008.**

Am fwy o fanylion neu am becyn cais cysylltwch â Julie Lewis ar unai 0870 010 9007 neu jlewis@oxfam.org.uk.

Cronfa Newydd d/o Mantell Gwynedd

Bydd Mantell Gwynedd yn lansio rhaglen grant peilot arloesol yn fuan dan nawdd Cyngor Chwaraeon Cymru. Bydd grwpiau sydd ddim yn ymwneud â chwaraeon ac ymarfer corff fel rhan o'u nod ac amcanion craidd yn cael gwneud cais am grant er mwyn annog y grŵp i wneud mwy o weithgarwch ymarfer corff er mwyn gwella iechyd a ffitrwydd ac ati.

Gwyliwch allan am fwy o fanylion ar www.mantellgwynedd.com neu cysylltwch â Delyth Vaughan ar 01286 672 626 neu delyth@mantellgwynedd.com

Galluogi Gwynedd

Mae cronfa Galluogi Gwynedd ar fin dirwyn i ben yn ei ffurf bresennol ac mae 'chydig o gyllid yn weddill ar gyfer ceisiadau o **dan £1,000** yn unig. Mae posibl gwneud cais am gyllid o **dan £1,000** ar unrhyw adeg - does dim dyddiad cau penodol. **Sylwer: bydd rhaid i bob prosiect fod wedi gorffen erbyn diwedd mis Chwefror 2008**.

Am becyn cais neu i drafod unrhyw brosiect a allai fod yn gymwys cysylltwch â Delyth Vaughan ar **01286 672 626** neu **delyth@mantellgwynedd.com**